**PENDERFYNIADIADAU AELOD CABINET UNIGOL**
**COFNOD PENDERFYNIADAU**

**DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Mercher, 8 Rhagfyr 2021**

**DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Dydd Gwener, 17 Rhagfyr 2021**
*Gall penderfyniadau a wneir gan y cabinet llawn ac aelodau unigol o'r cabinet gael eu "Galw Mewn" gan y Pwyllgor Dethol perthnasol. Os caiff penderfyniad ei alw mewn, ni fydd yn dod i rym fel y nodir uchod a chaiff ei gyflwyno eto maes o law.*

| Eitem Rhif | Teitl | Diben, Ymgynghoriad ac Awdur | Datganiad Diddordeb | Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|
| **1** | DEDDF LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 1994 RHEOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (PRAESEPTAU) (CYMRU) 1995 - Trefn Arfaethedig Taliadau | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Y caiff y drefn taliadau ddilynol arfaethedig ei chynnig yn disgwyl ymgynghoriad:<br><br>Y caiff praesept yr Awdurdod Heddlu ei dalu o Gronfa'r Cyngor mewn deuddeg rhandaliad misol cyfartal ar drydydd dydd Mawrth pob mis.<br><br>Y caiff Praeseptiau Cynghorau Cymuned eu talu drwy dri rhandaliad cyfartal ar y diwrnod gwaith olaf ym misoedd Ebrill, Awst a Rhagfyr bob blwyddyn.<br><br>Yr ymgynghorir â'r Cynghorau Cymuned cyn gwneud y penderfyniad ac y caiff ymateb yr ymgynghoriad ei ystyried wrth wneud y penderfyniad terfynol.<br><br>Bod adroddiad pellach yn cael ei gynhyrchu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad yn galluogi gwneud penderfyniad erbyn 31 Ionawr yn unol â statud. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **2** | SYLFAEN Y DRETH GYNGOR 2022/23 A MATERION CYSYLLTIEDIG | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrif y Sylfaen Treth) (Cymru) 1995, y caiff y swm a gyfrifwyd gan y Cyngor fel Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23 ei hysbysu fel 47,372.80 ac y gosodir y gyfradd gasglu ar 99.0%.<br><br>Na wneir unrhyw Benderfyniad Arbennig yn datgan Cyfraddau Draeniad fel Treuliau Arbennig.<br><br>Na chaiff unrhyw dreuliau a wnaed gan y Cyngor wrth gyflawni mewn rhai o'i ardal swyddogaeth a gyflawnir mewn man arall yn ei ardal gan Gyngor Cymuned eu trin fel traul arbennig ar gyfer diben Adran 35 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.<br><br>Bod gosod y Dreth Gyngor yn parhau i fod yn swyddogaeth y Cyngor llawn. |
| **Additional Information:** | | | | |
| | | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | |
| | | | | |